Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Cael y budd mwyaf o brydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd

## Crynodeb o'r cyfarfod bord gron

**Jack Price, Rob Richardson a Helen Tilley**
Hydref 2024

# Cenhadaeth y Ganolfan

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn rhoi tystiolaeth ac arbenigedd annibynnol awdurdodol i weinidogion, uwch lunwyr polisi ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus sy'n eu helpu i ganfod ymatebion polisi effeithiol ac atebion ymarferol i rai o'r heriau polisi mwyaf sy'n wynebu Cymru.

Mae'r Ganolfan wedi gweithio ar amrywiaeth eang o heriau polisi ac ar hyn o bryd mae'n canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu syniadau newydd am lesiant cymunedol, yr amgylchedd a sero net, yn ogystal ag anghydraddoldebau.

Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi o bob cwr o'r byd ac mae'n defnyddio ei gwaith gyda Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus i ddatblygu dealltwriaeth o lunio a gweithredu polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaeth Ymchwil, mae'n arfogi ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisi.

Mae'r Ganolfan yn aelod o Rwydwaith Beth sy'n Gweithio y DU ac yn rhan o'r Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Rhyngwladol (IPPO). Mae'n cysylltu llunwyr polisi ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru â'r ffynonellau ychwanegol hyn o dystiolaeth ac arbenigedd.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan yn [www.wcpp.org.uk](http://www.wcpp.org.uk)

## Cyllidwyr Craidd

Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, mae'r Brifysgol yn sefydliad uchelgeisiol ac arloesol sy'n awyddus i feithrin cydberthnasau rhyngwladol cryf a dangos ei hymrwymiad i Gymru.

Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesi y DU, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i sicrhau bod pob cyngor yn cyfrannu cymaint â phosibl ac i greu'r amgylchedd gorau ar gyfer datblygu ymchwil ac arloesedd.

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd

# Cenhadaeth IPPO

Nod yr Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Rhyngwladol yw canfod, crynhoi a rhannu'r dystiolaeth orau sydd ar gael drwy'r byd ar gyfer datblygu polisi ac ymarfer yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae wedi'i ariannu am gyfnod o bedair blynedd rhwng 2020 a 2024 gan yr ESRC ac mae'n gydweithrediad rhwng UCL, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) ym Mhrifysgol Caerdydd, Prifysgol Glasgow, Queen's University Belfast, Canolfan Wybodaeth Tystiolaeth ar gyfer Polisi ac Ymarfer (EPPI), y Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Cyngor ar Wyddoniaeth i Lywodraeth (INGSA), a'r cyhoeddwr newyddion academaidd The Conversation.

Sefydlwyd yr arsyllfa yn anterth y pandemig byd-eang ac aeth ati'n fuan i lunio adolygiadau o dystiolaeth am bynciau fel yr effaith o gau ysgolion ar blant a phobl ifanc mewn addysg ar gyfer Adran Addysg y DU.

Mae'r tîm wedi ehangu cwmpas ei waith wedyn i edrych ar yr heriau sy'n codi o ran y targed Sero Net, Adfer ar ôl Covid, Anghydraddoldeb Lleoedd a Gofodau ac Anghydraddoldebau Economaidd-gymdeithasol, ac mae'n cydweithio â llywodraethau ar y lefel leol, genedlaethol a datganoledig i helpu i gynnig tystiolaeth iddynt ar gyfer datblygu polisi.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | **4** |
| **Cyflwyniad** | **5** |
| **Safonau maethol ac amgylcheddol** | **7** |
| **Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais** | **10** |
| **Buddion tymor hwy** | **12** |
| **Casgliad** | **15** |
| **Cyfeiriadau** | **16** |
| **Manylion yr awduron** | **18** |

# Crynodeb

- Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o gyfarfod bord gron a gynhaliwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a'r Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Rhyngwladol ym Mehefin 2024. Mae'n ychwanegu at waith blaenorol gan WCPP yn edrych ar y rhaglen i gyflwyno prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd (UPFSM) yng Nghymru.

- Roedd y cyfranogwyr wedi trafod tri phrif bwnc yn ymwneud â'r goblygiadau polisi ehangach o UPFSM:
    - Sut mae **safonau maethol ac amgylcheddol** yn gallu cyfrannu at lwyddiant UPFSM;
    - Yr effeithiau o UPFSM ar gamau i fynd i'r afael â **thlodi, stigma tlodi ac anfantais**;
    - **Buddion tymor hwy** posibl o UPFSM.

- Roedd cyfranogwyr wedi pwysleisio ei bod yn bwysig cyfuno safonau maethol uchel a phrydau bwyd sy'n apelio at blant ac yn cynnig dewis da.

- Roedd y trefniadau presennol yn cael eu gweld yn is-safonol yn aml, gydag anawsterau a oedd yn cynnwys pwysau amser, sifftiau amser cinio lluosog, a threulio gormod o amser yn ciwio.

- Roedd buddsoddi cyfalaf a hyfforddiant i wella amgylcheddau prydau ysgol yn cael eu gweld yn hanfodol i gynyddu'r nifer sy'n derbyn UPFSM.

- Tynnwyd sylw hefyd at y buddion ariannol i rieni a'r cyfle i wella cydberthynas lle mae rhieni wedi bod mewn dyled am brydau ysgol.

- Mae potensial i UPFSM ddelio â stigma tlodi, er na chafwyd digon o ymchwil eto i'r graddau y mae stigma yn cael ei brofi, a'i ddynameg, a chan bwy.

- Rhai ystyriaethau tymor hwy yw'r pontio o brydau am ddim i brydau am dâl i ddisgyblion hŷn a sut bydd hyn yn cael ei reoli.

- Mae'r fframwaith polisi a deddfwriaeth yng Nghymru yn cynnig cyfleoedd i gyflwyno ymyriadau trawsbynciol a chydgysylltiedig.

- Yn olaf, roedd cyfranogwyr wedi tynnu sylw at yr angen am gynnal rhagor o ymchwil i lenwi bylchau mewn tystiolaeth, yn enwedig o ran barn disgyblion, staff ac arweinwyr am ffyrdd i gael y budd mwyaf o'r polisi. Hefyd, dylid ymchwilio ymhellach i'r nodweddion penodol mewn gwahanol amgylcheddau ysgol.

# Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd (UPFSM) ar gyfer yr holl blant o oed cynradd erbyn Rhagfyr 2024. Er mwyn cefnogi'r broses o weithredu'r polisi hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) i gynnal ymchwil ar:

- Y costau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth gyflwyno UPFSM, a sut y gall y rhain fod wedi newid dros amser;
- Y buddion ehangach o ddarparu UPFSM, yn cynnwys buddion yn dod i ran dysgwyr unigol, a'r cyd-fuddion polisi ehangach a allai godi.

Mae WCPP wedi ymchwilio i'r costau roedd awdurdodau lleol wedi'u hysgwyddo yn ystod y cam cyntaf wrth gyflwyno'r rhaglen (Price, 2024) ac wedi comisiynu adolygiad o dystiolaeth yn edrych ar yr effeithiau o ddarparu prydau ysgol i bob disgybl mewn gwahanol wledydd (James, 2024). Er mwyn edrych ymhellach ar y goblygiadau o ddarparu UPFSM, cynhaliodd WCPP gyfarfod bord gron ar y cyd â'r Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Rhyngwladol ym Mehefin 2024, gan ganolbwyntio ar y cysylltiadau mewn polisi a'r cyd-fuddion posibl o gyflwyno UPFSM.

Nod y cyfarfod bord gron oedd canfod meysydd lle byddai UPFSM yn gallu cefnogi ymyriadau polisi eraill neu lle gallai gyfrannu at gyflawni amcanion ehangach ym mholisi llywodraeth. Mewn cyfnod pan yw cyfyngiadau cyllidol yn cynyddu, mae'n hollbwysig cael y budd mwyaf o ymyriadau polisi er mwyn sicrhau defnydd doeth o gyllid cyhoeddus er mwyn cael y canlyniadau gorau i bobl Cymru.

Roedd y cyfarfod bord gron wedi canolbwyntio ar dri phrif faes:

1. Sut mae **safonau maethol ac amgylcheddol** yn gallu cyfrannu at lwyddiant UPFSM a sut mae UPFSM yn gallu hybu iechyd a llesiant disgyblion;
2. Sut byddai UPFSM yn gallu delio â stigma tlodi, ac a yw'n cynnig rhagor o fuddion o ran **mynd i'r afael â thlodi ac anfantais**;
3. **Buddion tymor hwy** a allai ddeillio o UPFSM, i ddysgwyr unigol ac i lywodraeth.

Daeth arbenigwyr a rhanddeiliaid ynghyd yn y cyfarfod o Gymru a ledled y DU, a'r rhain yn cynnwys academyddion, swyddogion a chynghorwyr llywodraeth, cynrychiolwyr y gwasanaeth cyhoeddus ehangach, gweithwyr y trydydd sector ac ymarferwyr sydd â phrofiad yn y system. Yn ogystal â myfyrio ar y broses o

gyflwyno’r rhaglen yng Nghymru, roedd cyfranogwyr y cyfarfod bord gron wedi ystyried tystiolaeth o rannau eraill o’r DU, yn enwedig tystiolaeth am ymyriadau tebyg yn yr Alban. Mae’r crynodeb hwn yn amlinellu rhai o’r prif negeseuon a thrafodaethau a gododd yn y cyfarfod bord gron.

# Safonau maethol ac amgylcheddol

Mae'r ymarfer cyfosod tystiolaeth a gynhaliwyd dros WCPP yn awgrymu'n gryf fod cysylltiad agos rhwng llwyddiant UPFSM wrth wella deilliannau dysgwyr a gwerth maethol a chynnwys y prydau a gynigir (James, 2024). Felly, y pwnc cyntaf a drafodwyd yn y cyfarfod bord gron oedd sut byddai safonau maethol yn gallu cyfrannu at lwyddiant UPFSM, ac a fyddai angen unrhyw newidiadau mewn amgylcheddau o gymharu â'r trefniadau presennol.

Mae deng mlynedd wedi mynd heibio ers cyhoeddi canllawiau presennol Llywodraeth Cymru ar fwyta'n iach mewn ysgolion (Llywodraeth Cymru, 2014) ac mae bwriad i'w hadolygu. Roedd cyfranogwyr y cyfarfod wedi pwysleisio pa mor bwysig yw safonau maethol cadarn ar gyfer prydau ysgol, yn enwedig yng nghyd-destun ehangach y cymeriant bwyd cyffredinol gan blant, yn cynnwys hynny y tu allan i'r ysgol, a heriau fel gordewdra a diffygion mwynol. Mae ymchwil yn awgrymu bod lefelau gordewdra yn ystod plentyndod yn uwch yng Nghymru nag yng ngweddill y DU, ac mae deiet gwael yn gyffredin ymysg plant a phobl ifanc (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2024). Mae tystiolaeth o'r Alban yn cyfleu darlun tebyg, gyda phlant a phobl ifanc yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn llai tebygol o adrodd am iechyd da neu ragorol, yn llai tebygol o fwyta ffrwythau a llysiau o leiaf unwaith y diwrnod, ac yn fwy tebygol o fwyta sglodion neu datws wedi'u ffrio o leiaf unwaith y diwrnod (Llywodraeth yr Alban, 2023).

Wrth gyflwyno UPFSM, ceir cyfle i gynnwys prydau maethlon yn rhan o fywydau disgyblion, gan eu galluogi i roi cynnig ar fwydydd a ryseitiau newydd na fyddant ar gael iddynt gartref o bosibl, heb wynebu cost ariannol. Roedd cyfranogwyr wedi nodi pa mor bwysig oedd gosod safonau uchel wrth sicrhau'r canlyniadau hynny, hyd yn oed os gallai hynny arwain at ddewisiadau heriol.

Roedd y rhaglen UPFSM hefyd yn cael ei gweld yn bwysig o ran helpu disgyblion i deimlo'n barod i ddysgu. Mae tystiolaeth o'r Alban yn awgrymu bod disgyblion yn gweld gwerth mewn bwyta gyda'u ffrindiau a chael pryd maethlon yng nghanol y diwrnod. Roedd arolwg cynhwysfawr o ddisgyblion uwchradd wedi dangos mai hoffter o'r bwyd ac eistedd gyda ffrindiau oedd y rhesymau mwyaf cyffredin dros ddewis cymryd prydau ysgol (McKendrick, 2022). Mewn arolwg arall, roedd 97% o bobl ifanc wedi dweud bod bwyd yn bwysig iawn neu'n weddol bwysig ar gyfer teimlo'n barod i ddysgu (Child Poverty Action Group in Scotland, 2024).

Mae UPFSM yn cael effaith gadarnhaol ar rieni yn ogystal, ac roedd cyfranogwyr wedi cyfeirio at lefelau straen is ymysg rhieni ac amgylchedd tawelach yn y cartref o ganlyniad i'r ffaith nad oedd angen paratoi pecynnau cinio, a hefyd at arbedion ariannol. Nodwyd mai taliadau am brydau ysgol oedd y gost fwyaf i deuluoedd, ynghyd â gwisg ysgol, felly roedd arbedion yn y maes hwn o gymorth iddynt. Mewn ymchwil ymysg disgyblion yn yr Alban, roedd 89% wedi dweud mai bwyd oedd un o'r costau pwysicaf yn yr ysgol os oeddent yn anfforddiadwy (Child Poverty Action Group in Scotland, 2024).[1]

Er hynny, mae heriau'n aros o hyd, mewn perthynas â meintiau'r dognau er enghraifft, gan fod cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn rhy fach mewn llawer achos, yn enwedig ar gyfer plant hŷn. Roedd ymchwil a drafodwyd yn y cyfarfod bord gron yn awgrymu bod plant hŷn o oed uwchradd, yn benodol, yn teimlo'n fwyfwy anniddig o ran eu gallu i ddewis eu prydau, yn enwedig os oes cyfyngu ar yr hyn sydd ar gael, fel nad yw rhai disgyblion yn cael eu dewis cyntaf. Weithiau, ni fydd y prydau'n apelio at blant a gall hynny beri i ddisgyblion ddewis yr un pryd bwyd bob diwrnod. Dylid ymdrechu i sicrhau bod y bwydlenni'n amrywiol a deniadol, a dylid parhau i gefnogi'r gwaith sydd ar y gweill mewn nifer o dimau arlwyo.

Er nodi bod y cynnwys maethol yn hollbwysig, roedd cyfranogwyr hefyd wedi pwysleisio y dylid gweld UPFSM fel un cam ar gyfer hyrwyddo dewisiadau deietegol iach yn hytrach nag ateb i ddelio â materion cymdeithasol ehangach sy'n ymwneud â bwyd.

Roedd consensws ymysg cyfranogwyr fod y trefniadau presennol ar amser cinio yn is-safonol a bod lle i wella amgylcheddau ciniawau ysgol. Mewn nifer o ysgolion, mae disgyblion yn cymryd eu tro i gael cinio ar hyn o bryd, ac mae profiadau y tu allan i Gymru yn awgrymu bod rhai disgyblion yn cael cyn lleied â 10 munud i eistedd a bwyta eu cinio. Mae hyn yn cyfrannu at y teimlad eu bod yn cael eu brysio, a gellir gweld hyn yn brofiad negyddol, yn enwedig os yw disgyblion hefyd yn ciwio am amser hir i gael eu cinio. Priodolwyd yr anhawster hwn i annigonolrwydd y cyfleusterau bwyta a phrinder staff ar gyfer paratoi a gweini ar amser cinio, a dylid rhoi blaenoriaeth i gamau i wella hyn.

Awgrymwyd mai'r ffordd orau i ddelio â heriau sy'n ymwneud â'r amgylchedd bwyd oedd drwy gydweithio, gan gynnwys staff arlwyo a phobl ifanc. Roedd hyn yn bwysig dros ben am fod yr amgylchedd yn amrywio rhwng ysgolion, ac am nad yw'n hawdd canfod y gwahaniaethau hyn drwy ystyried data ac ymchwil. Nodwyd bod y rhaglen Bwyd a Hwyl yn enghraifft dda o'r ffordd y mae disgyblion yn gallu rhoi cynnig ar

[1] Mae hyn mewn cymhariaeth â 91% a deimlai mai gwisg ysgol oedd un o'r costau pwysicaf.

wahanol fwydydd mewn lleoliad mwy hamddenol, gan eu cymell o bosibl i ddewis opsiynau bwyd newydd neu wahanol wrth gael prydau ysgol yn y dyfodol (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, dim dyddiad). Gellid rhoi rhagor o hyfforddiant i staff hefyd i'w cymell i ganolbwyntio ar gynnwys maethol y prydau sy'n cael eu paratoi a gellid rhoi cymorth i athrawon i annog pobl ifanc i wneud dewisiadau iach.

Er bod cyllid cyfalaf eisoes wedi'i ddarparu i helpu ysgolion i bontio i'r rhaglen UPFSM, teimlai cyfranogwyr y dylai cyllid ychwanegol gael ei ddefnyddio i roi blaenoriaeth i ddelio â'r materion a drafodwyd, yn enwedig ciwio hir a chyfnodau byr ar gyfer bwyta cinio. Drwy wella cyfleusterau ac amgylcheddau bwyta, gellir helpu i sicrhau lefelau uchel o ran derbyn prydau ysgol a maetheg well ymysg disgyblion, er ei bod yn bwysig bod yn glir y bydd mwy o wariant cyfalaf ar gyfleusterau hefyd yn galw am wariant refeniw ychwanegol ar staff os yw hyn i lwyddo.

Nid oedd cyfranogwyr wedi trafod pryderon amgylcheddol ehangach, fel natur y bwyd sy'n cael ei baratoi neu gadwynau cyflenwi lleol, er y bydd y rhain yn rhan o'r rhaglen UFSM. Yn ystod trafodaeth ddiweddarach, roedd cyfranogwyr wedi trafod gwastraff bwyd, a rhai wedi awgrymu bod gweithredu system rhagarchebu yn fodd i leihau gwastraff bwyd hyd yn oed yng nghyd-destun y ddarpariaeth UPFSM.

# Mynd i’r afael â thlodi ac anfantais

Un farn gyffredin yw bod UPFSM yn neilltuol o effeithiol wrth ddelio â’r stigma a deimlir gan ddisgyblion sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim (eFSM) ac sydd wedi’u cael neu wedi osgoi eu cymryd yn fwriadol. Yn ei hymchwil ar stigma tlodi, mae WCPP yn defnyddio diffiniad a gafwyd gan Senedd yr Alban, gan gymryd bod stigma tlodi yn fath o stigmateiddio sy’n dibrisio pobl a chymunedau am eu bod yn byw mewn tlodi neu am eu bod yn cael mynediad at wasanaethau sydd wedi’u bwriadu ar gyfer teuluoedd ar incwm isel (Morgan et al., 2024). Mewn gweithdai a gynhaliwyd gan WCPP, cafwyd awgrym bod ysgolion yn cael eu gweld yn safleoedd sy’n gysylltiedig â stigma tlodi, yn enwedig mewn perthynas ag eFSM (Morgan, 2024). Mae llenyddiaeth ac ymchwil academaidd hefyd yn awgrymu bod hyn yn wir, gan nodi bod hyn yn effeithio ar blant yn ogystal â rhieni: mae’n well gan rai rhieni yng Nghymru fynd at fanciau bwyd y tu allan i’w hardal yn hytrach na gwneud cais am eFSM (Morgan et al., 2024). Fodd bynnag, mae stigmateiddio yn gallu digwydd mewn gwahanol ffyrdd, yn cynnwys y ffordd y mae athrawon yn gallu disgwyl llai gan ddisgyblion sy’n derbyn eFSM a thrwy ddatgelu i’r cyhoedd bwy yw’r rheini sydd mewn dyled am brydau ysgol, mater sydd wedi’i amlygu o’r blaen mewn ysgol yn Wrecsam (Williams a Berrell, 2024; Trefnu Cymunedol Cymru, 2024).

Er bod tystiolaeth a gasglwyd gan WCPP yn awgrymu bod stigma o’r fath yn bodoli i ryw raddau, roedd gwahaniaeth barn ymysg cyfranogwyr o ran maint y stigma hwn a phwy yn union sy’n ei brofi. Roedd rhai sydd â phrofiad uniongyrchol wedi awgrymu bod y newid i system arlwyo heb arian parod wedi dileu rhywfaint o’r stigma, gan na ddylai disgyblion fod yn ymwybodol bellach, o dan y system hon, o bwy sy’n derbyn eFSM a phwy sy’n talu am eu prydau. Teimlai cyfranogwyr eraill fod stigma sy’n gysylltiedig â phrydau ysgol yn fwy o destun pryder mewn ysgolion uwchradd, nad ydynt yn dod o dan y polisi UPFSM, tra bo modd fel arfer i athrawon ddelio’n sensitif ag unrhyw faterion sy’n codi mewn ysgolion cynradd. Mae tystiolaeth o’r Alban yn amlygu pryderon neilltuol ymysg disgyblion uwchradd ynghylch y stigma a’r teimlad o gywilydd sy’n gysylltiedig â derbyn prydau ysgol am ddim (Child Poverty Action Group Scotland, 2024). Roedd tystiolaeth o Loegr hefyd a oedd yn awgrymu nad oedd cynnydd sylweddol yn y nifer sy’n derbyn prydau ysgol wrth newid o system eFSM i system prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion babanod, a hynny’n dangos y byddai lefelau’r stigma wedi gallu bod yn isel i ddechrau neu fod y stigma wedi parhau hyd yn oed ar ôl cynnig prydau ysgol am ddim i bob disgybl.

Fodd bynnag, heriwyd y canfyddiad hwn gan gyfranogwyr eraill a nododd y gall disgyblion eFSM fod â symiau llai ar eu cardiau talu, fel ei bod yn fwy anodd iddynt dalu am fyrbrydau neu fwyd arall yn ystod y dydd. Serch hynny, fe all hyn fod yn fwy o ystyriaeth mewn ysgolion uwchradd yn hytrach nag ysgolion cynradd gan nad yw ysgolion cynradd yn defnyddio cardiau talu. Roedd eraill wedi meddwl tybed a oedd y stigma yn cael ei deimlo gan ddisgyblion, neu a oedd yn cael ei ysgogi i ryw raddau gan rieni (efallai wrth gofio eu profiadau eu hunain pan oedd y gwahanu rhwng disgyblion eFSM a disgyblion eraill yn fwy eglur) sydd heb fod yn ymwybodol bod mwy o fesurau amddiffynnol ar waith bellach. Felly gallai fod yn bwysig rhoi sylw i ganfyddiadau rhieni wrth geisio cynyddu'r nifer sy'n derbyn prydau ysgol. Mae ofn stigma yn gallu bod yn fath o stigma tlodi ynddo'i hun, fel y mae ymchwil gan WCPP yn dangos (Morgan et al., 2024).

Cafwyd trafodaeth hefyd ar yr iaith a ddefnyddir ar gyfer cynnig prydau am ddim, ac roedd un cyfranogwr wedi awgrymu y byddai'r defnydd o'r term 'am ddim' ei hun yn gallu cael ei weld yn rhywbeth sy'n stigmateiddio. Awgrymodd mai gwell fyddai cynnwys y ddarpariaeth o brydau fel rhan arferol o'r diwrnod ysgol.

Nodwyd hefyd fod dyled am brydau ysgol yn fater sy'n peri anhawster drwy'r amser i rieni sydd o gefndir incwm is. Mae bodolaeth y ddyled yn gallu stigmateiddio a gall fod yn straen ar y berthynas rhwng teuluoedd ac ysgolion; roedd un cyfranogwr hyd yn oed wedi cyffelybu hyn i ganfyddiad bod ysgolion yn 'gasglwyr dyledion'. Nid yw polisïau UPFSM yn dileu dyled hanesyddol yn awtomatig, a lle mae prydau ysgol am ddim i'r holl ddisgyblion wedi'u cyflwyno, ni chafwyd dull cyson o weithredu oherwydd y gwahaniaethau rhwng trefniadau arlwyo ac is-gontractio ledled y DU. Mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru wedi amnestu dyledion hanesyddol ar wahanol adegau, ond mae'n debygol y bydd rhai rhieni a fydd mewn dyled o hyd o'r adeg y talwyd am y prydau hyn, er nad ydynt bellach yn talu am brydau bwyd i'w plant. Byddai dileu dyledion hanesyddol yn ymrwymiad ariannol unwaith ac am byth ond fe allai gael gwared ag un achos i stigma sylweddol, yn enwedig am fod y sefyllfa o fod mewn dyled yn cael ei chysylltu'n aml ag ymdeimlad o gywilydd.

Un mater arall a godwyd wrth ystyried tlodi a stigmateiddio oedd a fyddai'r profiad o gael UPFSM yn gallu peri llai o stigmateiddio wrth dderbyn eFSM mewn ysgolion uwchradd. Mater o ddyfalu yw hyn ar hyn o bryd, ond os bydd tystiolaeth bod cyflwyno prydau am ddim i bawb yn arwain at gynnydd yn y nifer sy'n derbyn eFSM ymysg teuluoedd cymwys ar lefel uwchradd, byddai hyn yn awgrymu bod llai o effaith o ran stigmateiddio.

Yn olaf, roedd cyfranogwyr yn cydnabod bod delio â stigma tlodi yn galw am amser, capasiti ac egni gan athrawon ac eraill yn y system ysgolion, ond y gallai'r canlyniadau fod yn werthfawr iawn. Er y gallai pryderon godi ynghylch achosi stigma, byddai'r pryderon hyn yn gallu bod yn sbardun, ohonyn nhw eu hunain, i lunio a datblygu polisïau tecach a gwell.

# Buddion tymor hwy

Roedd ein trafodaeth olaf yn ymwneud â'r buddion tymor hwy a allai ddeillio o ddarparu UPFSM, i ddysgwyr unigol, i lywodraeth, ac yn nhermau'r croestorri â meysydd polisi eraill. Codwyd nifer o bwyntiau gan gyfranogwyr. Roedd y cyntaf yn ymwneud â'r buddion o ddarparu UPFSM o gymharu ag ymyriadau eraill, a darparu brecwastau mewn ysgolion yn benodol, a oedd yn cael ei weld gan rai yn bolisi a oedd mewn cystadleuaeth. Roedd teimlad na fyddai UPFSM yn cael ei weld fel y ffordd orau i ddefnyddio adnoddau, o bosibl, os canolbwyntir ar un neu ddau ganlyniad penodol. Fodd bynnag, yr effeithiau cyfannol o ddarparu prydau ysgol i bawb yw'r lle gorau i ganfod y buddion. Hyd yn oed mewn gwerthusiadau o raglenni darparu prydau ysgol i bawb, mae tuedd i ganolbwyntio ar ganlyniadau penodol fel gordewdra. Er bod gwerthusiadau o'r fath yn dangos bod UPFSM yn gosteffeithiol yn ôl y ffon fesur honno, nid ydynt yn dangos y canlyniadau mwy cyfannol y gellir eu cael drwy'r polisi. Gellir cael rhai effeithiau tymor hwy, fel y potensial ar gyfer ennill incwm yn y dyfodol neu ganlyniadau bywyd gwell.

Roedd cyfranogwyr eraill wedi awgrymu na ddylid geirio'r drafodaeth mewn termau gwrthgyferbyniol, er enghraifft drwy ddadlau o blaid un ai brecwastau i bawb neu UPFSM. Yn hytrach, dylid dadlau o blaid darparu maeth i blant drwy gydol y diwrnod ysgol, yn cynnwys brecwast yn ogystal â chinio, er mwyn hyrwyddo canlyniadau da o ran addysg ac iechyd.

Codwyd cwestiwn ynghylch y profiadau a gafwyd mewn mannau lle mae darpariaeth gyffredinol wedi'i sefydlu ers tro, yn enwedig mewn perthynas â disgyblion yn newid o brydau am ddim i brydau am dâl. Awgrymodd cyfranogwyr fod profiadau yn yr Alban yn dangos bod hyn yn gallu peri sioc ariannol i rieni a bod pobl ifanc yn gallu cael profiad negyddol o ganlyniad i hyn. Rhaid rhoi ystyriaeth hefyd i rieni sydd â nifer o blant, rhai ohonynt a allai fod yn gymwys am brydau am ddim ac eraill sydd heb fod yn gymwys, a'r goblygiadau o ganlyniad i hyn o ran darparu prydau o fewn y teulu. Cafwyd awgrym o'r Alban fod hyn yn gallu codi dadleuon o fewn teuluoedd, ac mae data o arolygon yn dangos bod y disgyblion eu hunain yn teimlo bod colli'r ddarpariaeth gyffredinol wrth symud i P6 (yn cyfateb i Flwyddyn 5 yng Nghymru) yn annheg (Child Poverty Action Group in Scotland, 2024).

Cyfeiriwyd at y cyfle i gaffael mwy o nwyddau a gwasanaethau lleol, a holi a fyddai'r rhaglen UPFSM yn gallu arwain at gael mwy o fwyd o ffynonellau lleol i'w ddefnyddio mewn ysgolion. Teimlai rhai cyfranogwyr fod y cyfle hwn wedi'i fethu mewn gwledydd eraill, yn cynnwys cyfleoedd drwy'r fenter Good Food Nation yn yr Alban, yn enwedig

am fod caffael ar lefel leol yn gallu cryfhau'r economi, cyflogaeth a chyfoeth cymunedol lleol.[2]

Rhai o'r buddion dichonol eraill a drafodwyd oedd y posibilrwydd o leihau'r pwysau ar amser staff ysgol, yn enwedig os ydynt wedi bod yn codi arian i gynorthwyo plant sydd heb fod yn gymwys am brydau ysgol am ddim ond sydd, er hynny, yn agored i niwed, yn ogystal â lleihau'r pwysau ar rieni.

Roedd cyfranogwyr hefyd wedi trafod y gallu i sicrhau bod disgyblion yn cael pob cyfle i roi cynnig ar fwydydd newydd drwy'r rhaglen UPFSM, yn enwedig bwydydd a allai hyrwyddo dewisiadau deietegol iachach yn y cartref. Y syniad sydd wrth wraidd hyn yw os bydd disgyblion yn dod i gysylltiad ag amrywiaeth ehangach o fwydydd, y byddant yn darganfod prydau newydd y maent yn eu mwynhau, ond hynny mewn modd risg isel, gan fod y prydau'n cael eu darparu am ddim. Byddai hyn yn gallu helpu i hwyluso dewis, yn enwedig i deuluoedd na fyddant am wynebu'r risg ariannol o roi cynnig ar fwydydd newydd na fyddant yn eu hoffi.[3] Fodd bynnag, bydd angen rheoli hyn yn ofalus yng ngolwg y negeseuon a gafwyd yn gynharach am sicrhau bod plant yn gallu cael prydau sy'n apelio atynt. Os na wneir hyn, mae perygl y gallent droi at brydau llai maethlon neu fwyta'r un prydau bob dydd.

O ran y rhyngweithio â pholisïau ehangach, roedd cyfranogwyr wedi nodi nifer o wahanol offerynnau polisi sydd ar gael eisoes yng Nghymru y byddai'r polisi UPFSM yn gallu cydweddu â nhw, yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a strategaethau ar fwyta'n iach a phwysau iach. Er bod y mecanweithiau hyn ar gael, teimlwyd y byddai'n fuddiol cael un pwynt ar draws llywodraeth i gydblethu'r rhain â phenderfyniadau polisi fel UPFSM, gan greu naratif a chenhadaeth gydlynus sy'n cysylltu gwahanol feysydd. Byddai hyn yn fodd i sicrhau ymdrechion mwy llwyddiannus a chydgysylltiedig.

Roedd y drafodaeth wedi troi hefyd at fylchau mewn tystiolaeth a chyfleoedd ar gyfer ymchwil bellach. Nodwyd bod nifer o fylchau mewn gwybodaeth o hyd yn y dystiolaeth o'r gwaith ymchwil ac o'r broses o gyflwyno'r rhaglen, rhai ohonynt yn bwysig i sicrhau llwyddiant y polisi. Er enghraifft, byddai cael dealltwriaeth o

---

[2] Mae'r cynllun Good Food Nation yn fframwaith cyffredinol i bolisïau a mentrau cysylltiedig â bwyd yn yr Alban (Llywodraeth yr Alban, 2024).

[3] Mae astudiaeth gysylltiedig, y cyfeiriwyd ati yn y cyfarfod bord gron, yn awgrymu bod y cyfle i brofi bwydydd iachach yn gallu dylanwadu ar bwysau corff (wedi'i fesur yn ôl BMI) a phenderfyniadau ar brynu bwyd ymysg rhieni, er nad yw cyfleoedd o'r fath yn dylanwadu ar ddewisiadau bwyd ymysg plant (Belot et al., 2024). Awgrymodd un cyfranogwr fod hyn yn dangos bod modd dylanwadu ar ddewisiadau o ran bwyd fel hyn ac y gellir cael canlyniadau iachach drwy gyfleoedd isel eu risg i brofi bwydydd.

ymddygiadau mewn ysgolion uwchradd yn gallu dangos y ffyrdd gorau i sicrhau safonau maethol da mewn arlwy deniadol ar amser bwyd, yn enwedig o ystyried pa mor gyffredin yw pecynnau bwyd parod ar amser chwarae. Mae hefyd yn bwysig deall barn disgyblion ac athrawon ar lefel ysgolion yng Nghymru, yn enwedig o ystyried bod y polisi yn dibynnu am ei lwyddiant ar y dull o'i weithredu mewn ysgolion. Mae hyn yn dibynnu, yn ei dro, ar amgylchedd yr ysgol lle mae prydau'n cael eu darparu a'u bwyta. Byddai ymdrechion i ddeall y barnau hyn a'r rhesymau drostynt yn ein helpu i ymateb i rai o'r materion a godwyd yn ystod y cyfarfod bord gron a bydd hyn yn bwysig o ran sicrhau'r gefnogaeth fwyaf posibl i'r polisi. Nodwyd hefyd fod bylchau yn y dystiolaeth am y rhesymau dros benderfyniadau ynghylch hyd ac amseriad amseroedd chwarae a'r effaith o ddeietau arbennig ar ddarparu ac y byddai'n fuddiol rhoi sylw i'r rhain.[4] Cafwyd tystiolaeth eisoes i lenwi rhai o'r bylchau hyn, ond mae ar gael ar lefel yr ysgol unigol yn unig gan amlaf, ac ychydig o waith a gafwyd hyd yn hyn i gasglu'r data hyn ar raddfa fwy.

[4] Cafwyd awgrymiadau bod amseroedd chwarae yn cael eu cwtogi i ddelio â materion ymddygiadol, ond roedd eraill wedi awgrymu y byddai cyfnodau hirach o orffwys yn gallu lliniaru'r problemau hyn drwy ddarparu mwy o amser hamdden i ddisgyblion.

# Casgliad

Roedd ein cyfarfod bord gron wedi tynnu sylw at faterion a chyfleoedd allweddol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r rhaglen UPFSM yng Nghymru. Roedd y drafodaeth wedi amlygu cred gyffredin y byddai UPFSM yn gallu cael effeithiau cadarnhaol sylweddol ar draws meysydd polisi a nodwyd rhai rhwystrau allweddol i weithredu a welwyd yng Nghymru, yr Alban a thu hwnt. Roedd cyfranogwyr yn falch o glywed y bydd y polisi UPFSM yn cael ei werthuso'n ffurfiol, fel y gellir dysgu gwersi a gwneud gwelliannau wrth roi'r rhaglen ar waith. Rhai o'r ystyriaethau allweddol a gododd o'r drafodaeth oedd :

- Ei bod yn bwysig cyfuno safonau maethol uchel a darparu prydau bwyd sy'n apelio at blant, gan gynnig cyfleoedd i brofi bwydydd newydd sydd heb ymddangos yn rhy ddieithr neu anarferol;
- Y posibilrwydd y bydd UPFSM yn dod â buddion ariannol ac iechyd i blant a theuluoedd, yn enwedig y rhai mwyaf difreintiedig, yn cynnwys lleihau straen yn y cartref a gwella'r parodrwydd i ddysgu yn yr ysgol;
- Yr angen i ystyried y ddynameg gymdeithasol sydd ynglŷn â darparu a bwyta prydau, yn cynnwys y buddion dichonol o gael amseroedd cinio hirach ac addasu amgylcheddau gweini bwyd i leihau ciwio a chaniatáu mwy o amser ar gyfer eistedd, gan gydnabod y goblygiadau o ran buddsoddi cyfalaf;
- Y posibilrwydd y bydd UPFSM yn delio â stigma, er bod graddau'r stigma a'r ddynameg wrth ei brofi, a chan bwy, yn anhysbys ar hyn o bryd;
- Yr achos o blaid llywodraethu trawsbynciol, efallai drwy swyddogaeth gydgysylltu ganolog o fewn Llywodraeth Cymru. Byddai hyn yn gallu helpu i hwyluso'r rhyngweithio rhwng UPFSM a meysydd polisi eraill fel bwyta'n iach a mynd i'r afael â thlodi a stigma tlodi;
- Yr angen am ragor o ymchwil i lenwi bylchau mewn tystiolaeth, yn enwedig mewn perthynas â barn disgyblion, staff ac arweinwyr am y ffordd i gael y buddion mwyaf posibl o'r polisi.

# Cyfeiriadau


Belot, M., Berlin, N., James, J., Skafida, V. (2024). **Changing Dietary Habits Early in Life: A Field Experiment with Low-Income Families**. Journal of Political Economy Microeconomics. I ddod. Adalwyd o **https://doi.org/10.1086/732126**

Child Poverty Action Group in Scotland. (2024). **The Cost of the School Day Big Question report: Children and young people's views on food, school trips and readiness to learn**. Adalwyd o **https://cpag.org.uk/what-we-do/project-work/cost-school-day/resources/big-question**

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. (dim dyddiad). **Bwyd a Hwyl: Cynllun Gwella Gwyliau'r Haf**. Adalwyd o **https://www.wlga.cymru/food-and-fun-school-holiday-enrichment-programme**

Iechyd Cyhoeddus Cymru. (2024). **Cyfleoedd i wella iechyd plant yng Nghymru: Potensial bwyd ysgol**. Adalwyd o **https://icc.gig.cymru/newyddion1/iechyd-cyhoeddus-cymru-yn-lansio-ffrwd-waith-ymroddedig-i-fwyhau-effaith-bwyd-ysgol-ar-iechyd-plant/cyfleoedd-i-wella-iechyd-plant-yng-nghymru-potensial-bwyd-ysgol/**

James, J. (2024). **The effects of Universal Free School Meals**. Wales Centre for Public Policy.

Llywodraeth Cymru. (2014). **Bwyta'n iach mewn ysgolion a gynhelir: Canllawiau statudol i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu**. Adalwyd o **https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/bwyta-n-iach-mewn-ysgolion-a-gynhelir-canllawiau-statudol-i-awdurdodau-lleol-a-chyrff-llywodraethu.pdf**

Llywodraeth yr Alban. (2023). **Health and wellbeing census Scotland 2021-2022.** Adalwyd o **https://www.gov.scot/publications/health-and-wellbeing-census-scotland-2021-22/pages/physical-health/**

Llywodraeth yr Alban. (2024). **National Good Food Nation Plan**. Adalwyd o **https://www.gov.scot/publications/national-good-food-nation-plan/**

McKendrick, J. (2022). **Fuelled in School? A nation-wide survey of secondary school pupils' opinion on school meals in Scotland.** Adalwyd o **https://researchonline.gcu.ac.uk/ws/portalfiles/portal/77241652/77079213.pdf**

Morgan, C. (2024). **Gweithdai stigma tlodi**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Adalwyd o **https://wcpp.org.uk/cy/prosiect/stigma-tlodi/**

Morgan, C., Coles-Riley, J., Hill-Dixon, A. (2024). **Mynd i'r afael â stigma ynghylch tlodi**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Adalwyd o **https://wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/mynd-ir-afael-a-stigma-ynghylch-tlodi-briff-polisi/**

Price, J. (2024). **Understanding the cost of universal primary free school meals**. Wales Centre for Public Policy.

Trefnu Cymunedol Cymru. (2024). **Trefnu Cymunedol Cymru – Arweinwyr Ifanc: Taith ein Hymgyrch**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Adalwyd o **https://wcpp.org.uk/cy/sylwebaeth/trefnu-cymunedol-cymru-arweinwyr-ifanc-taith-ein-hymgyrch/**

Williams, M., Berrell, K. (2024). **Angen clywed lleisiau pawb sy'n brwydro yn erbyn tlodi**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Adalwyd o **https://wcpp.org.uk/cy/sylwebaeth/angen-clywed-lleisiau-pawb-syn-brwydro-yn-erbyn-tlodi/**

## Manylion yr awduron

**Dr Jack Price** sydd yn Ymchwilydd Cyswllt yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

**Dr Robert Richardson** a oedd yn Gydymaith Ymchwil gyda'r Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Rhyngwladol sydd wedi'i lleoli yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Prifysgol Glasgow.

**Dr Helen Tilley** sydd yn Uwch Gydymaith Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Jack Price**
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
+44 (0) 29 2087 5345
info@wcpp.org.uk

OGL This report is licensed under the terms of the Open Government License

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru